

www.cyngorllanelltyd.cymru

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn
Neuadd Bentref Llanelltyd
Nos Fawrth, Medi 10, 2019 am 7.30 o'r gloch.**

Presennol: Cyngorwyr: Geraint Rowlands, Llinos Williams, Gareth Ellis, Carwyn Evans, Elfed ap Gomer. Hefyd Peredur Jenkins a Henry M. Edwards.

1. Ymddiheuriadau: Simon Evans (Cadeirydd), John Hughes a Gethin Williams.

Yn absenoldeb Simon Evans, cadeirwyd y cyfarfod gan Carwyn Evans (Is-gadeirydd).

2. Datgan diddordeb:

Doedd neb yn datgan diddordeb.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Gorffennaf 9, 2019

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

4. Materion yn codi o'r cofnodion Gorffennaf 9, 2019

Eitem 9.a. Llythyr (10/6/2019) oddi wrth Rheolwr Stadau, Cyngor Gwynedd gyda gwybodaeth gofynwyd at ddyfodol Toiledau Cyhoeddus Bontddu. Mae'r wybodaeth yn cynnwys adroddiad ar gyflwr y toiledau a'r brydles.

Anfonwyd y wybodaeth ymlaen i'r aelodau

Penderfynwyd trafod dyfodol y Toiledau yn cyfarfod mis Hydref.

Eitem 11.b. Derbyniwyd (29/8/2019) pris oddi wrth Gwasanaeth Tir a Choed i glirio coed, rhododendron a phlanhigion tebyg ar dir triongl rhwng terfyn Afallon a'r ffordd fawr.

Penderfynwyd cael pris gan Wildewood Tree Services (White Dog Cottage, Cricieth, LL53 6SR).

5. Materion Ariannol

a. Llythyr (10/7/2019) oddi wrth BDO gyda materion:

1. Mae angen datrys pwynt.
2. Nid oeddynt wedi dod o hyd i'r llun o'r hysbysiad ar ein gwefan

Rhoddwyd gwybod iddynt (10/7/2019) nid oeddwn yn deall beth oedd y pwynt dan sylw, a rhoddwyd cyfeiriad ein gwefan iddynt.

Llythyr ateb (11/7/2019) oddi wrth BDO yn rhoi gwybod mae'r archwilydd wedi cwblhau'r archwiliad ac mae bellach gyda'r adolygwyr.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION MEDI 10, 2019

Llythyr (27/8/2018) oddi wrth BDO yn rhoi gwybod mae'r archwiliad wedi ei gwblhau ac nid oedd unrhyw faterion wedi dod i'w sylw oedd angen adroddiad ychwanegol.

Amgáu mae:

Rhybudd o Ganlyniad Archwiliad – mae angen ei harddangos mewn manau amlwg am 14 diwrnod a chyn Medi 30, 2019. Rhoddwyd y rhybudd ar ein pedwar hysbysfwrdd ac ar ein gwefan.

Nodiadau ynghylch hysbysiad Diwedd yr Archwiliad

Manylion cyswllt

Arolwg 2018/19

Ffurflen Flynyddol – angen ei fod ar gael am 14 diwrnod a chyn Medi 30, 2019.

Cafodd y Ffurflen Flynyddol ei gyflwyno i'r aelodau, a chafodd ei chymeradwyo a'i dderbyn gan y Cyngor.

b. Bil (11/7/2019) am £1,242.00 oddi wrth Gwasanaeth Tir a Choed, Trawsfynydd am dorri llwybrau cyhoeddus ardal Llanelltyd. (Llynedd roedd y bil am £1,242.00).

Penderfynwyd talu'r bil.

c. Llythyr (8/8/2019) oddi wrth Gwasanaeth Trethi, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod maent wedi gwneud camgymeriad gyda Taliad Debyd Uniongyrchol. Maent wedi dyblygu y taliad 5 Gorffennaf i 8 Gorffennaf. I gywiro'r camgymeriad bydd ad-daliad yn cael ei roi yn ein cyfrif trwy Bacs hefyd ar 8/7/2019 .

ch. Bil (9 Awst 2019) am £113.04 oddi wrth Dŵr Cymru at Doiledau Cyhoeddus Bontddu am y cyfnod 5 Chwefror 2019 - 8 Awst 2019. Mae'n cael ei dalu trwy Ddebyd Uniongyrchol. (Llynedd roedd y gost yn £126.07).

Oherwydd amheuan ynglŷn cywirdeb y swm penderynwyd archwilio'r Toiledau a chau cyflenwd dŵr i'r adeilad. Mae'r adeilad wedi bod ar gau ers Hydref 1, 2018 (gweler cofnodion Medi 11, 2018, Eitem 10.a.). Gweler Eitem 4 uchod.

d. Llythyr (12/8/2019) oddi wrth Marie Curie. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

d. Llythyr (8/8/2019) oddi wrth Un Llais Cymru gyda chopiau o 'Governance and Accountability for Local Councils in Wales: A Practitioners' Guide (2019 Editon)' a 'Guidance on the model financial regulations templates for England and Wales'.

dd. Lythyr (13/8/2019) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynnwys model Reoliadau Ariannol i'w hystyried. Dim ond mân newidiadau o fersiwn 2016 sydd wedi cael eu gwneud.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i Elfed ap Gomer newid y Rheolau Ariannol sydd ar ein gwefan.

e. Balans yn y banc ar 29 Gorffennaf 2019: £9,179.78.

f. Balans yn y banc ar 29 Awst 2019: £8,918.30.

7. Mynwent Llanelltyd

Nid oedd adroddiad.

8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Llythyr (9/7/2019) yn rhoi gwybod mae ymgynghoriad cyhoeddus ar Canllaw Cynllunio Atodol Drafft: Tai Fforddiadwy. Mae'r wybodaeth ar gael yn eu swyddfa, llyfrgelloedd cyhoeddus, ar wefan:<https://www.eryri.llyw.cymru/planning/planning-policy/Supp-Planning-Guidence?name> Dylid anfon ymatebion cyn 18/9/2019.

b. Yn dilyn ein gwrthwynebiad i gais cynllunio Anwylyfa, Taicynhaef (gweler Cofnodion Mehefin 11, 2019, Eitem 8.b.ii.), derbyniwyd llythyr oddi wrth y Parc (10/7/2019) yn dweud nid oes gan Priffyrdd Gwynedd gwrthwynebiad i'r cais a bod yr ymgeisydd yn darparu manylion llawn ar gyfer y wal.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Anfonwyd llythyr ateb (18/7/2019) i'r Parc gyda sylwadau y gymuned ar y cais ac at benderfyniadau y Parc ar gynlluniau. I'r cais fod yn dderbyniol awgrymwyd i'r ymgeisydd gosod drych aml-ffordd.

Llythyr ateb (29/7/2019) o'r Parc yn cynwys ateb derbynwyd oddi wrth Priffyrdd Cyngor Gwynedd yn dweud mae'n iawn i'r ymgeisydd gosod drych aml-ffordd ond ei fod ar dir preifat a ddim ar y ffordd gyhoeddus. Ni fydd gosod drych aml-ffordd yn amod i'r Parc gwrthwynebu'r cais.

Anfonwyd copi o'r llythyr i'r aelodau.

Llythyr ateb (29/7/2019) o'r Parc yn rhoi gwybod maent wedi derbyn cyfathrebiad gan yr asiant sy'n gweithredu ar ran deiliaid Anwylyfa; maent wedi cael caniatâd y tirfeddiannwr cyfagos i osod drych aml-ffordd. Maent yn barod i hyn fod yn rhan o amod. Bydd yr Awdurdod yn awr yn bwrw ymlaen i benderfynu ar y cais ac yn argymhell cymeradwyaeth amodol. Byddent yn darparu copi o'r hysbysiad o'r penderfyniad i'r Cyngor Cymuned.

Anfonwyd llythyr ateb (30/7/2019) i'r Parc yn rhoi gwybod nid oes gennym fwy o sylwadau ei roi ar y cynllun. Rhoddwyd gwybod iddynt hefyd i'r Parc penderfynu ar y cynllun.

Llythyr (6/8/2019) o'r Parc yn rhoi gwybod mae cais cynllunio Anwylyfa wedi cael ei ganiatau ond gydag amodau.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

c. Llythyr (30/8/2019) yn gwahodd cynrychiolwyr o'r Cyngor i gyfarfod blynyddol rhwng y Parc a Chynghorau Cymuned a Thref. Mae cyfarfod yn Plas Tan y Bwlch ar ddydd Mawrth 1/10/2019 am 6.00yh. Maent angen gwybod pwy fydd yn bresennol cyn 20/9/2019.

Penderfynwyd i Geraint Rowlands ac Elfed ap Gomer fod yn bresennol.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION MEDI 10, 2019

ch. Derbyniwyd (2/9/2019) dogfen Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031 - Map o'r Cynigion a Mapiau Manwl. Hefyd, dogfen Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031 - Datganiad Ysgrifenedig

9. Gohebiaeth

a. Llythyr (15/7/2019 a 30/8/2019) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am eu Cynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol bydd yn cael ei gynnal dydd Sadwrn Hydref 5, 2019 yn Pafiliwn Bont, Pontrhydfendigaid. Thema cynhadledd bydd 'Rôl Cynghorau Cymuned a Thref i'r Dyfodol'. Amgáu mae:

Agenda Cynhadledd Flynyddol. Amser 9.30yb – 2.15yp. Hannah Blythyn AC prif siaradwr.

Agenda Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Amser 2:15yp – 3.05yp.

Ffurflen gofrestru.

Penderfynwyd i Elfed ap Gomer fod yn bresennol a thalu £100 y pris fesul cynrychiolydd.

b. Llythyr (19/7/2019) gyda Rhybudd oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd. Maent yn rhoi gwybod bydd Ffordd Ddi-ddosbarth, Taicynhaeaf ar gau, gydag oediadau hir, ar 22/7/2019 ond nid hwy na 3 diwrnod. Mae BT Openreach angen gwneud gwaith atgyweirio ceblau wrth Llwyn Tryfer.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

c. Llythyr (5/8/2019) oddi wrth Un Llais Cymru. Maent angen nifer o Gymdeithion Hyfforddiant ychwanegol i gyflwyno modylau hyfforddiant i gynghorwyr. Bydd y tal yn £10 yr awr a chostau teithio o 45 ceiniog y filltir. Os mae diddordeb maent angen CV ac enw dau ganolydd (referee). Maent hefyd angen datganiad 200 gair yn esbonio pam yr hoffech ddod yn Gydymaith Hyfforddiant. Dyddiad cau yw Awst 23, 2019.

ch. Llythyr (14/8/2019) oddi wrth Uned Gyfreithiol, Cyngor Gwynedd gyda chopïau o Rybuddion Cyhoeddus ynglŷn gwahardd a chyfyngu aros a manau parcio ar y stryd. Mae'n cynnwys rhybudd ar ochr ddeheuol y ffordd A496 o flaen Ysgol Gynradd Llanelltyd; deilydd bathodyn anabl yn unig.

d. Llythyr (21/8/2019) oddi wrth Eluned Morgan AC dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru. Amgáu mae ei chylchlythyr, ar gyfer ei hetholwyr ac i'r cynghorwyr.

dd. Llythyr (2/9/2019) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bod eu cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd ar ddydd Mercher Hydref 16 a ddim Medi 11.

e. Llythyr (9/9/2019) oddi wrth Elfed ap Gomer yn rhoi gwybod roedd dŵr yn llifo lawr ffordd Taicynhaeaf wedi glaw ar nos Sul / bore Llun 8,9/9/2019 ac yn gadael graean ar hyd y ffordd. Roedd y dŵr yn dod o dir Mr Jonathan Chapman ac o lwybr cyhoeddus tu ôl i Aur y Graig. Roedd y cwteri yn aneffeithiol i gasglu'r dŵr. Mae angen sgubor ffordd a glanhau cwteri. Amgáu gyda'r llythyr mae pump llun yn dangos y difrod.

Rhodddwyd gwybod i Priffyrdd i drefnu sgubo'r ffordd.

10. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

a. Yn dilyn rhybuddion mewn papurau newydd cenedlaethol a lleol gan Adran Stadau, Cyngor Gwynedd ynglŷn â throsglwyddo Safle Ysgol Clogau yn ôl i olynwyr mewn teitl y rhoddwr gwreiddiol, mae enwau wedi cael eu derbyn. Bydd ymchwiliad yn cael ei wneud i ddarganfod os maent yn wir olynwyr. (Mae dechreuad y broses yn cael ei roi yn Cofnodion Mawrth 12, 2019, Eitem 8.a.).

11. Materion Brys

a. Mae angen adolygu ein polisiau, sef: Cod Ymddygiad Aelodau, Rheolau'r Fynwent, Rheolau Sefydlog, Rheoliadau Ariannol, Polisi Iaith, Protocol Datrysiad. Anfonwyd copi o'r polisiau i'r aelodau.

Penderfynwyd bod y polisiau yn gywir.

b. Penderfynwyd rhoi gwybod i Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd mae angen gwella hwyneb y ffordd sy'n arwain at Llyn Cwm Mynach.
